**Tystysgrif ET1**

**Tystysgrif i gydymffurfio â chyfyngiad a gofnodwyd yn y gofrestr o dan baragraff 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 neu baragraff 6 o Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) 2022**

*Sylwer – mae angen tystysgrif ar wahân ar gyfer pob gwarediad gan endid tramor.*

Rhif(au) teitl …………..

Rwyf i/Rydym ni …………………………… o ……………………………………….. yn tystio bod y ddarpariaeth ganlynol o dan baragraff 3(2) o Atodlen 4A i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gymwys i [*nodwch y trosglwyddiad, prydles neu arwystl*] (‘y gwarediad’) dyddiedig [*rhowch ddyddiad y gwarediad*] a wnaed gan [*rhowch enw’r endid tramor]* (‘yr endid tramor’) i [*rhowch enw’r trosglwyddai, prydlesai neu arwystlai*]:

[*Dewiswch a chwblhewch y ddarpariaeth berthnasol isod. Gallwch ddileu’r geiriau mewn italig a’r darpariaethau nad ydynt yn gymwys.*]

[ ] Mae’r gwarediad: [*dewiswch a chwblhewch y datganiad perthnasol*]

- wedi ei wneud yn unol â rhwymedigaeth statudol o dan [*nodwch y ddarpariaeth statudol y cododd y rhwymedigaeth oddi tani]*.
- wedi ei wneud yn unol â gorchymyn y [*nodwch pa lys]* llys dyddiedig [*nodwch ddyddiad y gorchymyn llys]*, rhif yr achos [*rhowch rif yr achos]*.
- wedi digwydd trwy weithrediad y gyfraith ar y sail bod [*esbonio sut y cododd gweithrediad y gyfraith gan roi unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol]*.,

[ ] Cafodd y gwarediad ei wneud yn unol â chontract a wnaed cyn i’r cyfyngiad gael ei gofnodi yn y gofrestr, sef contract dyddiedig [*rhowch y dyddiad]* a wnaed rhwng [*rhowch enwau’r partïon i’r contract]* yn ymwneud â [*rhowch fanylion yr eiddo yr oedd y contract yn ymwneud ag ef]*.

[ ] Cafodd y gwarediad ei wneud wrth arfer pŵer gwerthu neu brydlesu a roddwyd i berchennog arwystl cofrestredig neu dderbynnydd a benodwyd gan y cyfryw berchennog, sef arwystl dyddiedig [*rhowch ddyddiad yr arwystl]* a wnaed rhwng [*nodwch y partïon i’r arwystl]* ac a gofrestrwyd ar [*rhowch ddyddiad cofrestru’r arwystl]*.

[ ] Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi caniatâd o dan baragraff 5 o Atodlen 4A i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i gofrestru’r gwarediad, trwy gydsyniad dyddiedig [*rhowch ddyddiad]*.

[ ] Mae’r gwarediad wedi ei wneud gan ymarferydd ansolfedd ac mewn amgylchiadau a bennir yn [*rhowch deitl y rheoliadau a wnaed o dan baragraff 3(3) o Atodlen 4A i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 a’r ddarpariaeth benodol sy’n ymwneud â’r amgylchiadau]*.

Llofnod…………………………………

Enw.................................................

Statws..............................................

Cwmni..............................................

Dyddiad ………………………………...

*Rhaid i dystysgrif gan drawsgludwr a reoleiddir yn unigol gael ei llofnodi yn ei enw ei hun a rhaid nodi ei statws (e.e. cyfreithiwr, trawsgludwr trwyddedig, Ymarferydd Trawsgludo CILEX).*

*Rhaid i unrhyw gyflogai arall trawsgludwr lofnodi yn enw ei gyflogwr ond rhaid iddo nodi ei enw ei hun a’i statws (e.e. ysgrifennydd, swyddog paragyfreithiol) yn ogystal â darparu enw ei gyflogwr.*